

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cabinet
DYDDIAD:	4 Gorffennaf 2023
LLEOLIAD:	Hybrid/Siambr y Cyngor
TEITL:	Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ynghylch Cysylltedd Digidol
DIBEN YR ADRODDIAD:	Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2023

Derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor adroddiad diweddarau mewn perthynas â Chysylltedd Digidol, a oedd yn rhoi trosolwg o'r mentrau a'r prosiectau y mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd i gefnogi lefelau cysylltedd digidol ar draws y Sir.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ym mis Ionawr 2022 a oedd yn pwysleisio bod hygyrchedd i gysylltedd digidol dibynadwy o ansawdd 'da' yn hanfodol i breswylwyr, busnesau ac ymwelwyr wrth gefnogi economi Ceredigion. Gyda datblygiadau cydlynol, gall seilwaith digidol weithredu fel catalydd ar gyfer twf busnes ac arloesedd yn ein sectorau wedi'u targedu a darparu gwell mynediad i gymunedau at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau. Bryd hynny, yn gynyddol oherwydd cyfyngiadau cyfnodau clo blaenorol, roedd yn amlwg bod cysylltedd digidol wedi dod yn rhan hanfodol o fywyd modern, gan ddylanwadu ar sut mae unigolion yn gweithio, cyfathrebu a chael mynediad at wasanaethau. Nid yw'r sefyllfa wedi newid wrth i ni i gyd barhau i addasu yn dilyn y pandemig gyda theuluoedd, busnesau a sefydliadau yn dibynnu fwyfwy ar y defnydd effeithiol o gysylltedd digidol i gynnal bywyd dydd-i-ddydd.

ARGYMHELLIAD:

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau y byddai'n fuddiol gwahodd cynrychiolwyr o'r Darparwyr Gwasanaeth i weithdy/cyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol ac argymhellwyd bod hyn yn cael ei ystyried gan y Cabinet.

Y Cynghorydd Rhodri Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol